

Gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol 2005



Ynghylch y gynhadledd

Mae dwy flynedd ers i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ddod i rym. Dylai egwyddorion y Ddeddf fod yn hysbys gan wasanaethau iechyd a gofal erbyn hyn. Yr her nawr yw sicrhau bod yr egwyddorion hynny yn cael eu hymgorffori yng ngwaith beunyddiol y gwasanaethau. Bydd y cynadleddau hyn yn rhad ac am ddim ac yn gyfle i ddysgu am enghreifftiau o arfer da mewn lleoliadau gofal. Byddan nhw hefyd yn tynnu sylw at rai o'r anawsterau sydd wedu codi, yn enwedig wrth benderfynu ar brif fuddiannau.

Pwy ddylai fynychu?

Mae'r cynadleddau yn addas ar gyfer holl weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n arbennig o awyddus i weld rheolwyr a gweithwyr eraill sydd â chyfrifoldebau penodol dros weithredu'r Ddeddf yn dod. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr cofrestredig, gweithwyr cymdeithasol â chyfrifoldebau rheoli, meddygon, nyrsus a rheolwyr mudiadau gwirfoddol. Sylwer y bydd disgwyl i gynadleddwyr ddeall y Ddeddf, yn cynnwys y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Dyddiadau a lleoliadau

Dydd Iau 8 Gorffennaf 2010 – Venue Cymru, Llandudno

Dydd Gwener 9 Gorffennaf 2010 – Gwesty'r Marriot, Caerdydd

Archebu lle

Gellir archebu lle yn y cynadleddau o gychwyn mis Mehefin. I archebu lle ewch i safle gwe SCIE www.scie.org.uk/mca

Ynghylch y Sefydliad er Rhagoriaeth Mewn Gofal Cymdeithasol (SCIE)

Mae'r Sefydliad er Rhagoriaeth mewn Gofal Cymdeithasol (SCIE) yn dod o hyd i wybodaeth am arfer da ac yn lledu gwybodaeth am yr arferion da hynny ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae'n estyn cymorth i'r broses o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd wedi eu trawsffurfio ac sydd wedi eu personoli at wahanol anghenion.

Mae SCIE wedi datblygu llawer o adnoddau i gydfynd â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol. Maent ar gael o ddalennau gwe'r Ddeddf ac Eiriolaeth Galluedd Meddyliol Annibynnol: www.scie.org.uk/mca a www.scie.org.uk/imca

Ynghylch Anabledd Dysgu Cymru

Mae Anabledd Dysgu Cymru yn gweithio tuag at greu Cymru sy'n gwerthfawrogi a chynnwys pob plentyn ac oedolyn gydag anabledd dysgu yng Nghymru. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill, pobl ag anableddau dysgu, rhieni a gofalywyr, yn hybu arfer da ac yn cefnogi gwaith y sector gwirfoddol. www.learningdisabilitywales.org.uk